Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Canlyniad yr ymgynghoriad



## Cynnig: Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun ar sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i adroddiadau o ddiffyg atgyweirio, gyda ffocws ar leithder a llwydni, gan denantiaid sy'n agored i niwed.

ombwdsmon.cymru

## Amdanom ni

Mae gennym dair rôl yn bennaf.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen.

Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys print bras.
I wneud cais, cysylltwch â ni:

1 Ffordd yr Hen Gae Pencoed CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

## Cynnwys

Trosolwg ........ 3

Rhagair ........ 4

Y rheswm dros gynnig ymchwilio ........ 7

A yw'r cynnig yn bodloni meini prawf cyhoeddedig yr Ombwdsmon? ........ 11

# Trosolwg

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau i ymgymryd ag ymchwiliadau 'Ar ei Liwt ei Hun' lle mae tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiant gwasanaeth systematig neu gamweinyddu.

Yn dilyn ymgynghoriad ar yr egwyddor o gynnal ymchwiliad i sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i adroddiadau a chwynion sy'n ymwneud â diffyg atgyweirio, gyda ffocws ar leithder a llwydni, gan denantiaid sy'n agored i niwed, rydym bellach wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd.

Derbyniwyd amrywiaeth o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys gan denantiaid tai cymdeithasol a darparwyr tai cymdeithasol, sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (a elwir hefyd yn Gymdeithasau Tai). Derbyniwyd ymatebion hefyd gan sefydliadau cyngor, eiriolaeth a chymorth y trydydd sector, Llywodraeth Cymru a phartïon eraill â diddordeb.

Ar ôl ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ofalus, ar hyn o bryd, rydym wedi penderfynu symud ymlaen i gynnig dau ymchwiliad. Diben y ddogfen hon yw rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac o'n penderfyniad i fynd â'n cynigion i ddefnyddio ein pwerau ymchwilio ar ei Liwt ei Hun ymhellach.

Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Swyddog Arwain ar ei Liwt ei Hun drwy e-bost ownintiative@ombwdsmon.cymru neu drwy'r post i'r cyfeiriad uchod.

## Rhagair

Mae Cymru yng nghanol argyfwng tai, gyda'r galw yn trechu'r cyflenwad yn sylweddol.  Mae hyn, yn ei dro, yn cyfyngu ar y cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn amodau tai gwael allu symud i lety mwy priodol.  Mae'r cysylltiad rhwng tai ac iechyd gwael hefyd wedi'i hen sefydlu.

Mae cryn sylw yn y cyfryngau wedi bod i effaith amodau byw gwael yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn dilyn marwolaeth drasig bachgen ifanc yn Rochdale yn 2020 o gyflwr anadlol.  Ym mis Tachwedd 2022, canfu'r Crwner y bu farw am iddo ddod i gysylltiad â llwydni yn eiddo tai cymdeithasol y teulu.  Er i'r digwyddiad hwn ddigwydd yn Lloegr, amlygodd bryderon a allai effeithio ar y rhai yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae tai cymdeithasol yn cyfrif am 16% o dai[1] ac, ar 31 Mawrth 2014, roedd stoc tai cymdeithasol yn cynnwys tua 240,000 o eiddo[2].  Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn gosod rhwymedigaethau ar landlordiaid ynghylch cyflwr y cartrefi y maent yn eu gosod.  Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod yr annedd mewn cyflwr da ac yn addas i bobl fyw ynddi.  Mae Safon Ansawdd Tai Cymru ("SATC") 2023 hefyd yn nodi'r safonau disgwyliedig ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru, y mae landlordiaid yn cael eu mesur yn eu herbyn.

Yn dilyn canfyddiadau'r Crwner yn 2022, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob darparwr tai cymdeithasol yng Nghymru i'w hatgoffa bod cartref digonol a diogel yn hanfodol i lesiant pobl ac mai busnes a chyfrifoldeb craidd darparwyr tai cymdeithasol yw cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi.  Ar ôl hyn, cynhaliwyd ymarfer sicrwydd manylach i hyrwyddo dysgu a gwelliannau i ddarparwyr tai cymdeithasol.

[1] Ymchwil y Senedd 3 Chwefror 2025
[2] Stoc tai cymdeithasol StatsWales

Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o nifer o sefydliadau perthnasol. Daeth gwaith y grŵp i'r casgliad bod cyfleoedd ar gyfer gwelliannau a datblygiad i sicrhau bod y canlyniadau gorau i denantiaid yn cael eu cyflawni a bod y risg i'w hiechyd a'u diogelwch yn cael ei lleihau i'r eithaf. Teimlai hefyd, er bod y fframweithiau polisi, deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol yn darparu sail dda ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a oedd yn lleihau'r risg o beryglon i denantiaid, fod cyfle i wella canlyniadau a gwneud argymhellion i gefnogi landlordiaid cymdeithasol i ddarparu'r lefel o sicrwydd y dylai tenantiaid, rheoleiddwyr a byrddau ei disgwyl.

Arweiniodd y gwaith hwn at gytundeb gan Weinidogion Cymru i bennu rheol mewn perthynas â sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i leithder, llwydni a pheryglon eraill o dan SATC. Ar 19 Rhagfyr 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ddatganiad a eglurodd y byddai SATC yn cael ei ddiweddaru i nodi amserlenni clir ar gyfer ymchwilio i beryglon a'u cywiro, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â lleithder a llwydni. Nododd fod Llywodraeth Cymru yn benderfynol o wella atebolrwydd a thryloywder i denantiaid. Bydd rheol newydd y SATC yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026 a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth yn agos ac yn disgwyl gweld gwelliannau pendant yn sut mae'r materion hyn yn cael sylw ar draws y sector.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweld tystiolaeth i awgrymu bod tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig y rhai y gellid eu hystyried yn agored i niwed, yn wynebu problemau o ran sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i adroddiadau a chwynion sy'n ymwneud â diffyg atgyweirio, lleithder a llwydni. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd mewn cwynion am dai cymdeithasol ac yn y flwyddyn 2024-2025, roedd ychydig dros 19% o'n cwynion newydd yn ymwneud â'r pwnc hwnnw. Yn ystod y flwyddyn honno, gwnaethom ymyrryd yn gynnar (heb ymchwiliad) mewn 79 o achosion yn ymwneud â diffyg atgyweirio a/neu leithder a llwydni.

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddom adroddiad thematig, Byw mewn Cyflyrau Difrifol, a oedd yn manylu ar themâu a phwyntiau dysgu o'n gwaith achos yn ymwneud â chwynion ynghylch diffyg atgyweirio, lleithder a llwydni mewn perthynas â thai.  Nododd yr adroddiad achosion lle'r oedd tenantiaid a oedd yn agored i niwed wedi aros yn hirach nag oedd angen i waith atgyweirio neu gynnal a chadw gael eu cynnal, ac roedd yn amlygu bod y gost i unigolion sy'n byw mewn amodau tai gwael yn fwy fyth os yw'r tenant yn oedrannus neu'n anabl.

Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, rydym wedi parhau i dderbyn cwynion yn ymwneud â diffyg atgyweirio, lleithder a llwydni.  Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn, rydym wedi ymyrryd yn gynnar (heb ymchwiliad) mewn 43 o achosion yn ymwneud â diffyg atgyweirio, lleithder a llwydni.  Rydym hefyd wedi cynnal ymchwiliadau.  Cyhoeddom adroddiadau ar ymchwiliadau Budd y Cyhoedd yn erbyn Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir y Fflint a 2 yn erbyn Trivallis (Cymdeithas Dai) ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025.  Canfu'r ymchwiliadau hyn oedi wrth ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio a/neu leithder a llwydni, ac roeddent yn cynnwys tenantiaid a oedd yn agored i niwed a'u teuluoedd.  Mae hyn yn ein harwain i amau y gallai'r materion hyn effeithio ar denantiaid darparwyr tai cymdeithasol eraill.

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (“Deddf 2019”) yn rhoi'r hawl i'r ombwdsmon ymgymryd ag ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun', nad oes angen iddynt gael eu hysgogi gan achwynydd unigol.  Mae'r Ombwdsmon bellach yn cynnig bwrw ymlaen ag ymchwiliadau ar ei liwt ein hun lle bodlonir ein Meini Prawf ar gyfer cychwyn ymchwiliadau o'r fath.

## Y rheswm dros gynnig ymchwilio

Ym mis Tachwedd 2025, gwnaethom agor ymgynghoriad i gasglu barn ynghylch a ddylid cynnal ymchwiliad i sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio, yn enwedig lleithder a llwydni, gan denantiaid sy'n agored i niwed. Cawsom ystod eang o ymatebion gan gynnwys gan Gymdeithasau Tai, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, sefydliadau'r trydydd sector, tenantiaid tai cymdeithasol a phartïon eraill gyda diddordeb. Defnyddiwyd tystiolaeth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori hon i lywio'r cynnig ymchwiliad hwn.

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r syniad y byddai cynnal ymchwiliad er budd y cyhoedd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gawsom yn cefnogi'r ffaith bod cyfleoedd i wella yn y sector tai cymdeithasol, o ran ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio, lleithder a llwydni.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cydnabod bod y daith wella hon eisoes yn mynd rhagddi, gan nodi'n benodol y SATC newydd a ddisgwylir ei gweithredu ym mis Ebrill 2026. Rydym hefyd yn cydnabod y newid y daw hyn i'r sector, gan ddarparu proses gydag amserlenni a chamau gweithredu penodol ar gyfer peryglon a allai achosi niwed sylweddol, gan gynnwys lleithder a llwydni, ynghyd â mwy o dryloywder ac adrodd ar ddata. Awgrymodd rhai ymatebwyr aros tan ar ôl gweithredu'r SATC newydd, fel y gellid ei hymgorffori a gallai ein hymchwiliadau ystyried ei heffaith. Ystyriwyd hyn yn ofalus ac roeddem o'r farn na fyddai angen gohirio ein hymchwiliadau. Hyd yn oed heb y cyfrifoldebau sy'n deillio o'r SATC newydd, dylai darparwyr tai cymdeithasol fod yn ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio, lleithder a llwydni yn unol â'u polisïau a'u canllawiau mewnol. Byddai ein hymchwiliadau hefyd, o bosibl, yn cynnwys ystyriaeth o'r dull o ymdrin â materion na chawsant eu nodi'n wreiddiol fel risg sylweddol ac felly na fyddent yn dod o dan y SATC newydd. Yn ystod ein hymchwiliadau arfaethedig, byddwn yn ystyried y newidiadau yn y SATC newydd

a bydd unrhyw argymhellion a wnawn yn adlewyrchu'r gofynion newydd ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol.

Rydym o’r farn y gallai problemau gydag ansawdd tai cymdeithasol effeithio mwy ar denantiaid sy’n agored i niwed ac roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi hyn.  Dyma rai enghreifftiau o grwpiau agored i niwed posibl a nodwyd gennym:

- **Pobl anabl**

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl anabl wedi'u gorgynrychioli ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru ac yn wynebu rhwystrau penodol - yn enwedig diffyg tai hygyrch, arosiadau hir am eiddo wedi'u haddasu, a niwed anghymesur o gyflyrau tai gwael (er enghraifft, lleithder a llwydni).

- **Pobl hŷn**

Er eu bod yn llai tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol na demograffeg iau, mae pobl hŷn yn grŵp sy’n agored i niwed yng nghyd-destun tai cymdeithasol oherwydd, wrth i bobl heneiddio, mae eu hanghenion tai yn tueddu i newid yn sylweddol (gan gynnwys pryderon ynghylch symudedd, hygyrchedd, iechyd, diogelwch a chynhesrwydd).  Mae tystiolaeth sydd ar gael yng Nghymru yn dangos bod pobl hŷn yn wynebu mwy o ddiffyg atgyweirio tai (yn enwedig problemau fel lleithder, llwydni, inswleiddio gwael), a gallant fyw mewn llety nad yw efallai'n addas iawn i'w hanghenion sy'n newid.

- **Pobl ifanc a phlant**

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan dai, fel aelodau o aelwydydd mewn tai cymdeithasol ac fel pobl ifanc sy'n symud i fyw'n

annibynnol.  Yng Nghymru, mae cyfraddau tlodi plant yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yn y DU ac mae teuluoedd â phlant yn cyfrif am gyfran fawr o'r rhai sydd ar restrau aros am dai cymdeithasol neu mewn llety dros dro.  Mae amodau tai gwael fel lleithder a llwydni yn peri risgiau penodol i iechyd a datblygiad plant, tra bod arosiadau hir neu symudiadau mynych yn amharu ar addysg a sefydlogrwydd.  I bobl ifanc, mae mynediad cyfyngedig at dai fforddiadwy ac addas yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd, yn enwedig i'r rhai sy'n gadael gofal neu sy'n profi chwalfa deuluol.  Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y sail dystiolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn llawer cryfach o ran mynediad at dai, rhestrau aros, atal digartrefedd, a llety dros dro. Unwaith y bydd aelwydydd mewn tai cymdeithasol, daw'r data'n fwy anghyson.

- **Pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol**

Mae tystiolaeth yn dangos, er bod aelwydydd lleiafrifoedd ethnig heb gynrychiolaeth ddigonol mewn tai cymdeithasol o'i gymharu â'u cyfran o'r boblogaeth, maent yn fwy tebygol o brofi gorlenwi, pwysau economaidd, a rhwystrau i gael mynediad at dai addas.  Mae ymchwil ansoddol hefyd yn tynnu sylw at brofiadau o wahaniaethu, ansensitifrwydd diwylliannol, a mynediad cyfyngedig at wasanaethau cymorth tai sydd wedi'u teilwra.  Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn awgrymu y gallai tenantiaid o leiafrifoedd ethnig wynebu anfanteision sylweddol wrth sicrhau a chynnal tai cymdeithasol digonol, diogel, a diwylliannol priodol.

- **Pobl ar incwm isel**

Mae unigolion ar incwm isel wedi'u cynrychioli'n anghyfartal mewn tai cymdeithasol. Yn aml, mae'r tenantiaid hyn yn profi problemau fforddiadwyedd tai, gyda llawer yn gwario swm anghyfartal o'u hincwm ar rent.  Bydd pryderon ynghylch ansawdd tai, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag

effeithlonrwydd ynni a chynnal a chadw, yn effeithio'n anghyfartal ar denantiaid incwm isel.

Rhoddodd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad enghreifftiau penodol o sut roedd tenantiaid sy'n agored i niwed wedi cael eu heffeithio gan y materion hyn.  Er enghraifft, nodwyd bod pobl hŷn wedi profi problemau parhaus gyda lleithder a llwydni er eu bod wedi gwneud adroddiadau, nad oedd eu cwynion wedi'u trin yn unol â pholisïau ymdrin â chwynion, yn ogystal â diffyg cefnogaeth wrth godi pryderon.  Roedd yr effaith yn cynnwys dirywiad o ran iechyd corfforol a meddyliol, ynghyd ag ynysu cymdeithasol.  Codwyd pryderon yn benodol ynghylch anghenion pobl hŷn anabl, pobl hŷn o gefndiroedd ethnig amrywiol, a phobl hŷn ar incwm isel, a allai brofi heriau cyfunol.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at yr effaith ar y rhai â phroblemau iechyd corfforol, yn enwedig problemau anadlol a allai gael eu heffeithio'n fwy gan leithder a llwydni.   Cydnabuwyd hefyd effaith yr argyfwng costau byw, sydd wedi cynyddu tlodi tanwydd.  Gall hyn achosi i denantiaid ddefnyddio eu gwres llai, gan gyfrannu at fwy o leithder a llwydni.  Mae hyn yn debygol o effeithio ar lawer o grwpiau ond yn enwedig y rhai ar incwm isel a'r rhai â chyflyrau iechyd.

Amlinellodd sefydliad trydydd sector yr effaith ar denantiaid o leiafrifoedd ethnig, gan dynnu sylw at yr angen am newid diwylliannol i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r amrywiaeth ymysg anghenion tenantiaid a'r argraff bod landlordiaid yn brin o ymatebolrwydd ac o ddealltwriaeth o anghenion tenantiaid o leiafrifoedd ethnig.

Rydym yn cydnabod bod pwysau sylweddol yn wynebu darparwyr tai cymdeithasol ledled Cymru.  Mae hyn yn cynnwys materion fel stoc dai hen neu sy'n heneiddio, yr adnoddau ariannol sydd eu hangen ar gyfer buddsoddi, prinder gweithwyr cymwys ac addas, a galw cynyddol.  Fodd bynnag, mae'n wir o hyd y dylai tenantiaid tai cymdeithasol ddisgwyl byw mewn cartrefi sy'n addas i fyw ynddynt ac nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd na'u

hannibyniaeth.  Byddai defnyddio ein pwerau ymchwilio ar ei Liwt ei Hun yn rhoi cyfle i archwilio sut mae pob adroddiad o ddiffyg atgyweirio, lleithder a llwydni yn cael eu sylw, gan ystyried anghenion y tenant a phreswylwyr eraill yr eiddo.

## A yw'r cynnig yn bodloni meini prawf cyhoeddedig yr Ombwdsmon?

Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ein hun:

- **Budd y cyhoedd**

Yn gyffredinol, derbynnir bod budd y cyhoedd yn “rhywbeth sydd o bryder a budd difrifol i'r cyhoedd”.  Rydym o'r farn ei fod yn rhywbeth sy'n effeithio ar y cyhoedd, yn hytrach na mater y mae'r cyhoedd yn ei chael o ddiddordeb, neu'n fater sy'n effeithio ar unigolyn (er y gall effeithio ar unigolyn yn fwy uniongyrchol na'r cyhoedd ehangach).  Gall 'cyhoedd' yn y cyd-destun hwn gyfeirio at adran benodol o'r cyhoedd neu boblogaeth gyfan Cymru.

Yr ymateb llethol i'n hymgynghoriad oedd y byddai defnyddio ein pŵer ymchwilio ar ei Liwt ei Hun, ar y mater hwn, er budd y cyhoedd.  Mae'n amlwg bod ffocws sylweddol wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf ar fethiannau darparwyr tai cymdeithasol i ymateb yn briodol i adroddiadau am leithder a llwydni.  Mae hefyd yn amlwg bod hwn yn parhau i fod yn faes ffocws wrth symud ymlaen a bod gwaith yn parhau yn y sector hwn i wella'r gwasanaeth a ddarperir i denantiaid tai cymdeithasol a'r amodau y maent yn byw ynddynt.  Rydym yn cydnabod bod y sector wedi ymrwymo i ddatblygiad parhaus.  Fodd bynnag, fel y dangosir o'n gwaith achos, mae'n parhau i fod yn debygol y gellir dysgu gwersi pellach a rhannu arfer gorau, ar draws y sector.

- **Amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig**

Mae ein gwaith achos ein hunain wedi tystio i fethiannau o ran sut mae nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol wedi ymateb i adroddiadau am leithder a llwydni gan denantiaid sy'n agored i niwed.  Mae'n amlwg bod hwn hefyd yn faes pryder i Lywodraeth Cymru a'r sector tai, gyda chyflwyniad y SATC newydd ym mis Ebrill 2026.   Dywedodd un sefydliad trydydd sector fod dros 17% o'r cleientiaid sy'n cysylltu ag ef, sy'n byw mewn tai cymdeithasol, wedi codi problemau am leithder neu ddiffyg atgyweirio, a bod diffyg arfer cyson o ran sut roedd darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i adroddiadau a chwynion o'r natur hon.

Er ein bod yn cydnabod nad yw hyn yn golygu bod camweinyddu systemig o fewn pob darparwr tai cymdeithasol, rydym yn ystyried ei bod yn rhesymol amau bod camweinyddu systemig a bod ein Meini Prawf ar gyfer defnyddio ein pŵer ymchwilio ar ei Liwt ei Hun yn cael eu bodloni mewn perthynas â rhai darparwyr tai cymdeithasol.

- **Mae'r mater yn effeithio ar grŵp eang o ddinasyddion, i'r fath raddau fel eu bod yn ymddangos yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater sy'n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad**

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod grwpiau sy'n agored i niwed yn fwy tebygol o gael mynediad at dai cymdeithasol ac felly'n fwy tebygol o gael eu heffeithio gan y materion hyn.  Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, y rhai ar incwm isel, pobl hŷn a phlant ifanc, pobl anabl a thenantiaid o leiafrifoedd ethnig.  Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod effaith yn sgil methu â mynd i'r afael yn briodol â phroblemau lleithder a llwydni yn fwy arwyddocaol i'r unigolion hyn.

Fel yr amlinellwyd eisoes, roedd yr ymatebion i'n hymgynghoriad yn cydnabod yr effaith ar grwpiau sy'n agored i niwed.  Amlygwyd hefyd fod angen cydnabod y gall unigolion groestorri sawl grŵp sy'n agored i niwed, ar yr un pryd.

- **Pwysau'r dystiolaeth**

Mae tystiolaeth sylweddol yn ymwneud â phryderon ynghylch sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i adroddiadau am leithder a llwydni gan denantiaid sy’n agored i niwed. Mae ein gwaith achos ein hunain yn tystio i’r materion hyn ar draws nifer o gyrff. Mae'n amlwg bod hwn hefyd yn faes o ffocws sylweddol i Lywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o weithredu’r SATC newydd yn benodol mewn perthynas â'r maes hwn. Darparodd yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad, o amrywiaeth o ffynonellau, dystiolaeth gefnogol bellach.

- **Grym perswâd y dystiolaeth**

Ein barn yw bod yr ystod o dystiolaeth a gawsom, gan gynnwys o'n gwaith achos ein hunain, ynghyd â Llywodraeth Cymru, partïon eraill sydd â diddordeb, a thenantiaid eu hunain, yn gredadwy, yn ddibynadwy ac yn awgrymu camweinyddu systemig posibl yn sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio, lleithder a llwydni gan denantiaid sy’n agored i niwed.

**Yng ngoleuni'r dadansoddiad hwn, ystyriwn fod yr holl feini prawf hyn wedi’u bodloni.**

Ar y cam hwn, rydym o’r farn bod ein Meini Prawf a’r prawf budd y cyhoedd wedi'u bodloni mewn perthynas â 2 Gymdeithas Tai. Byddwn yn ysgrifennu at y cyrff hyn yn unigol i amlinellu ein hymchwiliadau arfaethedig gan roi cyfle iddynt wneud sylwadau yn unol â'r ddeddfwriaeth y gweithredwn oddi tani. Byddwn yn parhau i adolygu a ddylem gynnig ymchwiliadau ar ei liwt ein hun i gyrff eraill hefyd.